# Archwilio'r Cynulliad
## Eich Aelodau Cynulliad chi

—

# Explore the Assembly
## Your Assembly Members

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**

**The National Assembly for Wales is the democratically elected body that represents the interests of Wales and its people, makes laws for Wales and holds the Welsh Government to account.**

**©Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**© National Assembly for Wales Commission Copyright 2014**
The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is reproduced accurately and not used in a misleading or derogatory context. The material must be acknowledged as copyright of the National Assembly for Wales Commission and the title of the document specified.

# Croeso

# Welcome

Croeso i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae 60 o Aelodau yn y Cynulliad Cenedlaethol a chânt eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i wneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

Welcome to the National Assembly for Wales. The National Assembly is made up of 60 Members elected by the people of Wales to represent them and their communities, make laws for Wales and to ensure the Welsh Government is doing its job properly.



# Beth yw Aelod Cynulliad?

—

# What is an Assembly Member?

Mae Aelod Cynulliad yn berson, o'ch cymuned neu'ch rhanbarth chi o Gymru, sydd yn cael ei ethol gan eich pleidlais chi. Mae Aelodau'r Cynulliad yn eich cynrychioli chi a'ch buddiannau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Aelodau'r Cynulliad yn gwneud llawer o'u gwaith yn y Senedd ym Mae Caerdydd, ond maent hefyd yn treulio llawer o amser yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau ar hyd a lled Cymru.

Gallwch gysylltu a'ch Aelod Cynulliad i siarad am unrhyw beth sy'n digwydd yn eich ardal leol.

**www.cynulliad.cymru/aelodau**

—

An Assembly Member is a person from your community or region of Wales who is elected with your vote. Assembly Members represent you and your interests in the National Assembly for Wales.

Assembly Members do a lot of their work in the Senedd in Cardiff Bay, but they also spend a lot of time in their constituencies and regions across Wales.

You can contact your Assembly Member if you would like to speak to them about something that's happening in your local area.

**www.assembly.wales/members**

## Sut y caiff Aelodau'r Cynulliad eu hethol?

## How are my Assembly Members elected?

Caiff etholiadau'r Cynulliad eu cynnal bob pum mlynedd. Caiff Aelodau'r Cynulliad eu hethol i gynrychioli ardal benodol yng Nghymru fel aelodau o blaid wleidyddol neu fel Aelod Cynulliad annibynnol.

Mae cyfanswm o 60 o Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru – 40 ohonynt yn Aelodau Cynulliad Etholaethol, sy'n cynrychioli etholaethau lleol fel yr Aelodau Seneddol yn San Steffan. Aelodau Rhanbarthol yw'r 20 Aelod arall, ac mae'r rhain yn cynrychioli un o bump o ranbarthau Cymru.

Mae hyn yn golygu bod gan bawb yng Nghymru un Aelod Etholaethol a phedwar Aelod Rhanbarthol i'w cynrychioli.


Mae hyn yn golygu bod buddiannau holl ranbarthau ac etholaethau Cymru yn cael eu cynrychioli i'r un graddau, a bod gan bawb yng Nghymru bump o gynrychiolwyr yn y Cynulliad.

Assembly elections are held every five years. Assembly Members are elected to represent a specific area of Wales as members of a political party or as an independent Assembly Member.

There are a total of 60 Members in the National Assembly for Wales – 40 of them are Constituency Assembly Members, representing the same local constituencies as Westminster MPs. The other 20 are Regional Assembly Members, who represent one of the five regions of Wales.

Everyone in Wales is represented by one Constituency Member and four Regional Members.

This means that the interests of all of Wales's regions and constituencies are equally represented, and everyone in Wales has five representatives in the Assembly.



**Etholaethau a Rhanbarthau Etholiadol | Constituencies and Electoral Regions**

Ffiniau rhanbarthau

—

Regional boundary

Etholaethau

—

Constituencies


NEC

## Felly beth y mae Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud?

—

## What do Assembly Members do?

Yn ogystal â threulio amser yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau, bydd Aelodau'r Cynulliad yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos yn y Siambr, lle bydd y Senedd yn cyfarfod i drafod mewn 'Cyfarfod Llawn'. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, byddant yn trafod ac yn cymryd rhan mewn dadleuon ar faterion sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn gofyn cwestiynau i Weinidogion Llywodraeth Cymru, yn trafod pynciau sydd yn bwysig i Gymru a'i phobl, yn trafod adroddiadau pwyllgorau ac yn deddfu ar gyfer Cymru.

Hefyd, bydd Aelodau'r Cynulliad o bleidiau gwleidyddol nad ydynt yn y Llywodraeth yn cynnal dadleuon ar faterion o'u dewis nhw, a byddant yn aml yn codi pryderon ac yn cynrychioli buddiannau pobl o'u hetholaethau neu eu rhanbarthau. Caiff y Cyfarfod Llawn ei gadeirio gan y 'Llywydd' sy'n un o Aelodau'r Cynulliad. Ar hyn o bryd, y Fonesig Rosemary Butler AC yw'r Llywydd. Drwy gyfarfod gyda'i gilydd fel hyn, mae gan Aelodau'r Cynulliad gyfle i wneud yn siŵr bod gennych chi lais yn y modd y caiff Cymru ei rhedeg.

—

As well as spending time in their constituencies and regions, Assembly Members meet twice a week in the Siambr, the Senedd's debating chamber, for a meeting called 'Plenary'. During these meetings they discuss and debate on issues affecting your everyday life. Assembly Members ask Welsh Government Ministers questions, discuss issues that are important to Wales and its people, debate committee reports and make laws for Wales.

Also, Assembly Members from political parties who are not in Government have debates on issues of their choice, often raising concerns and representing the interests of the people from their constituency or region. An Assembly Member known as the 'Presiding Officer' chairs Plenary. At the moment, the Presiding Officer is Dame Rosemary Butler AM. This coming together as a whole lets Assembly Members voice your concerns about how Wales is run.

## Felly beth mae Aelodau’r Cynulliad yn ei wneud am bynciau penodol?

## What do Assembly Members do about specific subjects?

Mae Aelodau’r Cynulliad yn eistedd ar bwyllgorau. Grwpiau o Aelodau yw pwyllgorau ac maent yn ystyried yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud am faterion penodol. Yna, maent yn awgrymu sut y gall wneud pethau’n well. Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad 12 o bwyllgorau sydd wedi’u sefydlu i ystyried pynciau penodol. Bydd pob Pwyllgor yn cyflawni tasgau fel archwilio cyfreithiau neu graffu ar benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru. Bydd penderfyniadau unrhyw bwyllgor yn cael eu hysgrifennu mewn adroddiad a chaiff hwnnw ei drafod gan yr holl Aelodau yn y Cyfarfod Llawn.

Gallwch ddylanwadu ar waith pwyllgorau’r Cynulliad a gwneud yn siŵr bod eich profiadau a’r wybodaeth sydd gennych yn effeithio ar yr hyn y byddant yn ei ddweud wrth Lywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.cynulliad.cymru/pwyllgorau**

Assembly Members sit on committees. Committees are groups of Assembly Members who look at what the Welsh Government is doing about certain issues. They then make suggestions for improvements. The Assembly currently has 12 committees that have been set up to look at specific subjects. Each committee carries out tasks such as examining laws or scrutinising policy decisions made by the Welsh Government. Any decisions a committee makes will be written into a report which is discussed in Plenary by all Assembly Members.

You can influence the work of Assembly committees and make sure that your knowledge and experiences affect what they say to the Welsh Government.

To find out more, visit **www.assembly.wales/committees**





## Sut y gallaf weld beth y mae fy Aelodau Cynulliad i yn ei wneud i mi?

## How can I see what my Assembly Members are doing for me?

Gallwch weld Aelodau'r Cynulliad wrth eu gwaith drwy ddod i'r Senedd neu wylio arlein ar wefan **www.senedd.tv**

You can see your Assembly Member in action by coming to the Senedd or watching online at **www.senedd.tv**







**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
**www.cynulliad.cymru**

—

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
**www.assembly.wales**